| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **11 Gorffennaf 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Proses Ymgynghori - Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (“PSD”)ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru y Cyngor ar yr Ymgynghoriad ar ôl yr Etholiad Cyffredinol** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Menna Trenholme – Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol.** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol -** |

**1. Argymhelliad ar gyfer penderfyniad**

**Fod y Cyngor yn nodi ac yn cefnogi yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad ar y Bleidlais Sengl Drosglwyddiadau ar gyfer etholiadau i Gyngor Gwynedd o 2027 ymlaen.**

**2.Cefndir**

2.1 Yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fawrth mabwysiadwyd amserlen gan y CYngor ar gyfer cynnal proses ymgynghori statudol er caniatáu penderfyniad ar fabwysiadu trefn bleidleisio amgen ar gyfer Cyngor Gwynedd. Fodd bynnag ac yn dilyn ar hynny galwyd etholiad cyffredinol y DU. Mewn ymgynghoriad gyda'r arweinyddion grwpiau gwleidyddol daethpwyd i'r casgliad am sawl rheswm na fyddai yn briodol na theg cynnal y fath ymgynghoriad yn ystod etholiad cyffredinol. Gorfu felly , gohirio y broses a chreu amserlen amgen ar gyfer cynnal y broses.

.

2.2 Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses gan ddal sylw at gyfnodau etholiadol er sicrhau penderfyniad cyn 15 Tachwedd 2024, sef y diwrnod olaf y gellir dod i benderfyniad os am newid y drefn cyn etholiad 2027.

| | Gweithred | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1. | Cychwyn ar yr ymgynghoriad | 15 Gorffennaf 2024 |
| 2. | Dyddiad Cau ymgynghoriad | 15 Medi 2024 |
| 3. | Galw cyfarfod arbennig Cyngor Llawn – 21 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod | 3 Hydref 2024 |
| 4. | Cyngor Llawn i benderfynu ar y sustem bleidleisio | 24 Hydref 2024 |
| 5. | Hysbysu y Gweinidogion Cymreig a Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad os penderfynir newid | |

**SWYDDOGION STATUDOL**

**Prif Swyddog Cyllid**
Ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwario ychwanegol.

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad